**Pleidleisiau a Thrafodion ar gyfer dydd Mercher, 25 Chwefror**

**Dechreuodd y cyfarfod am 2.00pm**

**2.00pm**
**Cwestiynau i Jane Hutt, y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**
Gofynnwyd y 5 cwestiwn cyntaf.

**2.31pm**
**Cwestiynau i Jane Davidson, y Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes**
Gofynnwyd y 6 cwestiwn cyntaf. Tynnwyd cwestiwn 4 yn ôl.

**3.01pm**
**Cynnig i ystyried mater o bwysigrwydd cyhoeddus brys o dan Reol Sefydlog 6.9 ar Ardd Fotaneg Genedlaethol Cymru**

**Cynhaliwyd Pleidlais ar y cynnig:**
O blaid 27; Ymatal 0; Yn erbyn 29; Cyfanswm 56
**Gwrthodwyd y cynnig**

**3.07pm**
**Datganiad gan y Gweinidog dros Ddiwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon: Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru**

**3.49pm**
**Daeth y Dirprwy Lywydd i'r Gadair**

**3.49pm**
**Cynnig i gymeradwyo Adroddiad Grant Arbennig: Ysgolion Bach a Gwledig**
*NDM1827 Karen Sinclair (De Clwyd)*

Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol:

O dan Adran 88B o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988, ac yn unol â Rheol Sefydlog 19.8, yn cymeradwyo Cyllid Llywodraeth Leol (Cymru) - Adroddiad Grant Arbennig (Rhif 8) (Cymru) 2003, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 17 Chwefror 2004.

**Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig**
O blaid 42; Ymatal 5; Yn erbyn 0; Cyfanswm 47

**Derbyniwyd y Cynnig**

**4.01pm**
**Cynnig i gymeradwyo Adroddiad Grant Arbennig: Gweithio ar y Cyd**
*NDM1828 Karen Sinclair (De Clwyd)*

Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol:

O dan Adran 88B o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988, ac yn unol â Rheol Sefydlog 19.8, yn cymeradwyo Cyllid Llywodraeth Leol (Cymru) - Adroddiad Grant Arbennig ar gyfer Gweithio ar y Cyd (Cymru) 2004 a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 17 Chwefror 2004.

**Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig**
O blaid 40; Ymatal 10; Yn erbyn 0; Cyfanswm 50
**Derbyniwyd y Cynnig**

**4.19pm**
**Cynnig i gymeradwyo Rheoliadau'r Dreth Gyngor (Hysbysiadau Galw am Dalu) (Diwygio) (Cymru) 2004 o dan Reol Sefydlog 22.27(iv)**
*NDM1829 Karen Sinclair (De Clwyd)*

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn ystyried egwyddor Rheoliadau'r Dreth Gyngor (Hysbysiadau Galw am Dalu) (Cymru) (Diwygio) 2004, y gosodwyd copi ohonynt yn y Swyddfa Gyflwyno ar 16 Chwefror 2004.

**Cyflwynwyd y gwelliant canlynol**

**Gwelliant 1**
**Jonathan Morgan (Canol De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn argymell bod asesiad o'r effaith ar lefel y Dreth Gyngor o ganlyniad i fentrau nad ydynt yn cael eu hariannu'n llawn gan Lywodraeth y Cynulliad yn cael ei gynnwys gyda hysbysiadau galw am dalu'r Dreth Gyngor.

**Cynhaliwyd pleidlais:**
**Gwelliant 1**
O blaid 17; Ymatal 0; Yn erbyn 33; Cyfanswm 50
**Gwrthodwyd gwelliant 1**

**Cynhaliwyd pleidlais ar egwyddor y Gorchymyn**
O blaid 51; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 51
**Cymeradwywyd egwyddor y gorchymyn**

*NDM1830 Karen Sinclair (De Clwyd)*

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn cymeradwyo bod Rheoliadau'r Dreth Gyngor (Hysbysiadau Galw am Dalu) (Diwygio) (Cymru) 2004, yn cael eu gwneud yn unol â’r drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 16 Chwefror 2004.

*Noder: Ni osodwyd Adroddiad gan y Pwyllgor Deddfau mewn perthynas â’r Rheoliadau hyn; mae Cabinet y Cynulliad wedi datgymhwyso’r gofynion trefniadol o dan Reol Sefydlog 22.27(i), (ii) a (iii).*

**Cynhaliwydpleidlais ar y Rheoliadau**
O blaid 51; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 51
**Cymeradwywyd y Rheoliadau**

**4.34pm**
**Cynnig i drafod Rheoliadau’r Contractau Gwasanaeth Meddygol Cyffredinol**
*NDM1831 Karen Sinclair (De Clwyd)*

Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol:

1. Yn croesawu'r camau a gymerwyd o ran cyflwyno'r contract newydd ar gyfer Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol yng Nghymru drwy baratoi rheoliadau;

2. Yn derbyn bod brys am ddwyn yr holl reoliadau hyn i rym rhwng 28 Chwefror a 1 Ebrill 2004, er mwyn sicrhau bod Ymarferwyr Cyffredinol yng Nghymru ar yr un tir â'r rhai mewn rhannau eraill o'r DU;

3. Yn nodi y bydd hyn yn golygu defnyddio'r Weithdrefn Weithredol yn ogystal â'r Weithdrefn Safonol;

4. Yn edrych ymlaen at weld y contract newydd, a'r rheoliadau i'w weithredu, yn gwella'r gwasanaethau i gleifion.

*Cafodd y Rheoliadau drafft canlynol eu hanfon at yr Aelodau dros yr e-bost ar 18 Chwefror 2004 mewn perthynas â'r ddadl:*

- *Gorchymyn Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Iechyd Cymunedol a Safonau) 2003 (Cychwyn Rhif 1) (Cymru) 2004*
- *Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Contractau Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol) (Cymru) 2004*
- *Gorchymyn Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol (Darpariaethau Trosiannol a Chanlyniadol) (Cymru) 2004*
- *Gorchymyn Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol (Darpariaethau Trosiannol a Chanlyniadol) (Rhif 2) (Cymru) 2004*
- *Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Rhestrau Cyflawnwyr) (Cymru) 2004*
- *Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Contractau Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol) (Rhagnodi Cyffuriau etc.) (Cymru) 2004*

**Cyflwynwyd y gwelliannau canlynol:**

**Gwelliant 1**
**Jonathan Morgan (Canol De Cymru)**

Ym mhwynt 1, dileu 'Yn croesawu’r' a rhoi 'Yn nodi’r' yn ei le.

**Gwelliant 2**
**Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Ym mhwynt 1 dileu 'yng Nghymru’ a rhoi yn ei le:

'ond gan gydnabod pwysigrwydd y ffaith na ddylai unrhyw agwedd ar y contract newydd roi unrhyw feddyg teulu yng Nghymru o dan anfantais ariannol,'

**Gwelliant 3**
**Jonathan Morgan (Canol De Cymru)**

Ychwanegu ar ddiwedd pwynt 2:

ac yn galw ar Lywodraeth Cynulliad Cymru i ymrwymo i gwrdd â’r amserlen hon.

**Gwelliant 4**
**Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn cydnabod y pwysau o ran cyllido y bydd darparu gwell gwasanaethau yn ei achosi.

**Gwelliant 5**
**Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn cydnabod yr her, o ran cyllido a threfniadaeth, y bydd darparu gwasanaethau y tu allan i oriau arferol yn ei gynnig i'r Byrddau Iechyd Lleol.

**Gwelliant 6**
**Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn cydnabod y problemau arbennig y mae practisau meddygon teulu sy'n gweithio yn bennaf ym maes iechyd myfyrwyr yn eu hwynebu.

**Gwelliant 7**
**Jonathan Morgan (Canol De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn deall bod angen i Lywodraeth Cynulliad Cymru roi cefnogaeth gref a chyson i wneud i'r contract ar gyfer Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol weithio ar gyfer staff a chleifion.

**5.00pm**
**Cynigiodd y Trefnydd gynnig gweithdrefnol o dan Reol Sefydlog 6.18 i ymestyn y ddadl 30 munud.**
O blaid 40; Ymatal 0; Yn erbyn 1; Cyfanswm 41
**Derbyniwyd y cynnig**

**5.01pm**
**Cynnig i drafod Rheoliadau'r Contractau Gwasanaeth Meddygol Cyffredinol (parhad)**
**Cynhaliwyd pleidlais:**
**Gwelliant 1**
O blaid 18; Ymatal 0; Yn erbyn 34; Cyfanswm 52
**Gwrthodwyd gwelliant 1**

**Gwelliant 2**
O blaid 24; Ymatal 0; Yn erbyn 28; Cyfanswm 52
**Gwrthodwyd gwelliant 2**

**Gwelliant 3**

O blaid 52; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 52
**Derbyniwyd gwelliant 3**

**Gwelliant 4**
O blaid 24; Ymatal 0; Yn erbyn 28; Cyfanswm 52
**Gwrthodwyd gwelliant 4**

**Gwelliant 5**
O blaid 24; Ymatal 0; Yn erbyn 28; Cyfanswm 52
**Gwrthodwyd gwelliant 5**

**Gwelliant 6**
O blaid 24; Ymatal 0; Yn erbyn 28; Cyfanswm 52
**Gwrthodwyd gwelliant 6**

**Gwelliant 7**
O blaid 52; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 52
**Derbyniwyd gwelliant 7**

**Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig fel y'i diwygiwyd**
O blaid 52; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 52
**Derbyniwyd y cynnig**

**Dadl ar Gamddefnyddio Sylweddau – Ni chyflwynwyd hwn**
*NDM1832 Karen Sinclair (De Clwyd)*

Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol:

1. Yn croesawu'r camau a gymerwyd gan y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio y llynedd ar weithredu'r Strategaeth Camddefnyddio Sylweddau ar gyfer Cymru; a

2. Yn canmol y cyfraniad aml-asiantaeth sy'n sail i'r strategaeth yng Nghymru.

**Cyflwynwyd y gwelliannau canlynol:**

**Gwelliant 1**
**Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn cydnabod bod y cam diweddar i ailgategoreiddio canabis yn methu â thorri'r cyswllt rhwng y rheini sy'n masnachu cyffuriau a'r rheini sy'n defnyddio cyffuriau, ac yn condemnio'r dryswch y

mae'r cam hwn wedi ei achosi.

**Gwelliant 2**
**Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn nodi bod hysbysebu alcohol yn gwneud i yfed ymddangos yn atyniadol i bobl ifanc, ac yn gresynu at ddiffyg pwerau'r Cynulliad Cenedlaethol i wahardd hysbysebu alcohol, ac yn galw ar y Gweinidog i gynnal trafodaethau gyda Llywodraeth y DU ar drosglwyddo'r pwerau hyn ar frys.

**Gwelliant 3**
**Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar y Gweinidog i gyflwyno adroddiad i'r Pwyllgor Cyfiawnder Cymdeithasol o fewn y chwe mis nesaf ynghylch sut y mae cyllid y Cynulliad yn cael ei ddefnyddio i fynd i'r afael â chamddefnyddio sylweddau.

**Gwelliant 4**
**Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn mynegi pryder ynghylch y methiant i roi cyfrif am yr holl arian ac adnoddau a ymrwymwyd yn flaenorol o fewn y gyllideb Iechyd ar gyfer gwasanaethau camddefnyddio sylweddau ac yn galw ar y Gweinidog i gyflwyno diweddariad yn rheolaidd i'r Pwyllgor Cyfiawnder Cymdeithasol ar ymdrechion i roi cyfrif am yr adnoddau hyn.

**Gwelliant 5**
**Jonathan Morgan (Canol De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn gofyn am i Lywodraeth Cynulliad Cymru gynyddu nifer y cyfleusterau preswyl yng Nghymru ar gyfer dadwenwyno ac ailsefydlu.

**Gwelliant 6**
**Jonathan Morgan (Canol De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cynulliad Cymru i sicrhau eglurder gan Lywodraeth y DU ynghylch gweithredu'r ddeddf sy'n ymwneud â chyffuriau Dosbarth C.

**Gwelliant 7**
**Jonathan Morgan (Canol De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cynulliad Cymru i hyrwyddo ymwybyddiaeth lawnach o beryglon gyrru tra dan ddylanwad sylweddau tocsig.

**Gwelliant 8**
**Jonathan Morgan (Canol De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Wrth gydnabod bod camddefnyddio yn cynnwys sylweddau sydd – er eu bod yn gyfreithlon - yn cael effaith andwyol ar iechyd yr unigolyn a'r gwasanaethau a ddarperir ar gyfer ein cymunedau, yn galw ar Lywodraeth Cynulliad Cymru i wella rhaglenni addysg sy'n amlygu peryglon alcohol a thybaco.

**Gwelliant 9**
**Jonathan Morgan (Canol De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig :

Yn gofyn am i Lywodraeth Cynulliad Cymru ymateb i broblem y duedd gymdeithasegol ddiweddar o yfed ac ysmygu cynyddol ymysg merched a genethod yn eu harddegau.

**Gwelliant 10**
**Jonathan Morgan (Canol De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn cydnabod llwyddiant ein Heddluoedd yn cyfyngu ar nifer y troseddau sy'n ymwneud â chyffuriau yng Nghymru.

**5.31pm**
**Dadl fer - NDM1833 Janice Gregory (Ogwr); Does Unman yn Debyg i Gartref?**

**Bydd y cyfarfod wedi gorffen erbyn 6.00pm**

******************

**E P Silk**

**Clerc y Cynulliad**

**DOGFENNAU A OSODWYD ERS Y CYFARFOD LLAWN DIWETHAF**

**Dogfennau a Osodwyd ar 24 Chwefror 2004**

- Rheoliadau Ychwanegion Bwyd Amrywiol (Diwygio) (Cymru) 2004 - LD2701
- Rheoliadau Cynhyrchion Jam a Chynhyrchion Tebyg (Cymru) 2004 - LD2702
- Rheoliadau Addysg (Gwybodaeth am Ddisgyblion Unigol) (Personau Rhagnodedig) (Cymru) 2004 - LD2703
- Gorchymyn Proffesiynau Iechyd Cymru (Sefydlu, Aelodaeth, Cyfansoddiad a Swyddogaethau) 2004 - LD2704
- Adroddiad Grant Arbennig (Rhif 9) (Cymru) 2003 - Cyllid Refeniw Ychwanegol (Maint Dosbarthiadau a Gwella Ysgolion) - LD2705

**Dogfennau a Osodwyd ar 23 Chwefror 2004**

- Adroddiad gan y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar Reoliadau Contractau'r Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol a drafodwyd gan y Pwyllgor ar 12 Chwefror 2004 - LD2689

**Dogfennau a Osodwyd ar 19 Chwefror 2004**

- Rheoliadau Cynlluniau Cymorth y Polisi Amaethyddol Cyffredin nad ydynt yn rhai IACS (Apelau) (Cymru) 2004 - LD2688

**Adroddiadau Pwyllgor a Osodwyd ar 24 Chwefror 2004**

- LC831 - Gorchymyn Deddf Cyfunddaliad a Diwygio Cyfraith Lesddaliad 2002 (Cychwyn Rhif 2 ac Arbedion) (Cymru) 2004 - LD2690
- LC832 - Gorchymyn Tribiwnlysoedd Prisio Lesddaliadau (Ffïoedd) (Dirymu ac Arbed) (Cymru) 2004 - LD2691
- LC833 - Gorchymyn Tribiwnlysoedd Prisio Lesddaliadau (Taliadau Gwasanaeth, Yswiriant neu Geisiadau am Benodi Rheolwyr) (Dirymu ac Arbed) (Cymru) 2004 -

LD2692

- LC834 - Rheoliadau Tribiwnlysoedd Prisio Lesddaliadau (Ffioedd) (Cymru) 2004 - LD2693
- LC836 - Rheoliadau Cwmnïau RTM (Memorandwm ac Erthyglau Cymdeithasu) (Cymru) 2004 - LD2695
- LC837 - Rheoliadau Diwygio Lesddaliad (Rhyddfreinio ac Estyn) (Diwygio) (Cymru) 2004 - LD2696
- LC838 - Rheoliadau Diwygio Cyfraith Lesddaliad (Rhyddfreinio ar y Cyd ac Adnewyddu Prydlesi) (Diwygio) (Cymru) 2004 - LD2697
- LC839 - Rheoliadau'r Hawl i Reoli (Manylion a Ffurflenni Rhagnodedig) (Cymru) 2004 - LD2698
- LC840 - Rheoliadau Taliadau Gwasanaeth (Gofynion Ymgynghori) (Cymru) 2004 - LD2699
- LC842 - Rheoliadau'r Diwydiant Dwr (Amodau Rhagnodedig) (Ymgymerwyr yng Nghymru yn Unig neu yn Bennaf) 2004 - LD2700